Cymorth Cynllunio Cymru

Ymgysylltiad y gymuned â chynllunio

# Adroddiad Blynyddol 2015 / 16

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Adroddiad Blynyddol, Ebrill 2015 i Fawrth 2016

## Edrych ymlaen

Ein diben yw cefnogi cymunedau ac awdurdodau cynllunio i weithio'n well gyda'i gilydd wrth lunio cynefinoedd.

Rydym yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i gefnogi dulliau o ymgysylltiad ystyrlon â chymunedau fel rhan o broses gynllunio rhagweithiol.

Rydym yn gweithio â chynghorau cymuned a thref i weld y byd o'u persbectif hwy ac i esbonio'r broses gynllunio, eu rôl ynddi a'r hyn y gallant eu gyflawni.

### Neges gan y cadeirydd

Mae'n gyfnod cyffrous iawn i fod yn Gadeirydd Cymorth Cynllunio Cymru. Ers sawl blwyddyn rydym wedi ceisio rhoi cefnogaeth a'r wybodaeth angenrheidiol i bobl er mwyn iddynt ddeall a chymryd rhan yn y broses gynllunio. Bellach, mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac agenda ddiwygio Cynllunio Cadarnhaol yn hyrwyddo ymgysylltiad cynharach a mwy effeithiol â chymunedau, yn enwedig ynghylch Cynlluniau Cynefin, adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl), ymgynghoriad cymunedol gorfodol cyn-cais ar gyfer ceisiadau cynlluniau mwy arwyddocaol, ynghyd â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae ein profiad ni'n golygu y gallwn ychwanegu gwerth go iawn i'r diwygiadau hyn.

Mae gan Gymorth Cynllunio Cymru ddau ragoriaeth unigryw i ychwanegu gwerth. Yn gyntaf, down â phrofiad ac ymrwymiad i helpu cymunedau i ymgysylltu â chynllunio mewn dull adeiladol ac ystyrlon. Yn ail, ymddiriedir ynom fel darparydd di-duedd o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

Nawr, yn fwy nag erioed o'r blaen, ein bwriad yw bod yn anogwr i greu proses gynllunio sy'n canolbwyntio fwy ar gymunedau yng Nghymru. Trwy ddarparu hyfforddiant, digwyddiadau a chyfleoedd i rwydweithio a chyfnewid gwybodaeth, rydym am lywio'r newid diwylliant sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal agenda Cynllunio Cadarnhaol.

***Gayle Wootton, Cadeirydd***

# Ein rôl newydd

Mae Cymorth Cynllunio Cymru hanner ffordd trwy drawsnewid dan arweiniad, a fydd yn ein lleoli ni ynghanol ymgysylltiad cymunedol mewn cynllunio Cymreig, erbyn 2018. Mae dwy brif elfen i'r trawsnewid:

- Parhau i adeiladu'r gallu ar gyfer ymgysylltiad cymunedol cadarnhaol.
- Dod yn hyb rhwydweithol ar gyfer ymgysylltiad cymunedol mewn cynllunio.

Ceir mwy o wybodaeth am y strategaeth drawsnewid yn ein Cynllun Busnes gyfredol 2016-19:
www.planningaidwales.org.uk/about-us-2/key-documents-and-policies/business-plans/

## Ad-drefnu'r tîm Staff

Ad-drefnwyd ein tîm staff i gydfynd â'r trawsnewid. Bellach mae gennym bump aelod staff; Elwyn Thomas, Prif Weithredwr; Joseph Thomas, Swyddog Ymgysylltiad (awdurdodau cynllunio); Angharad Hobbs, Swyddog Ymgysylltiad (cynghorau cymuned a thref); Julia Lester, Swyddog Ymgysylltiad (prosiectau); a Kay Sharman, Swyddog Cyllid a Gweinyddiaeth.

I gael mwy o wybodaeth am ein staff ewch i: www.planningaidwales.org.uk/about-us/our-people/staff/

## Cyfathrebu

Yn 2014, comisiynwyd prosiect ymchwil gennym i edrych yn feirniadol ar Gymorth Cynllunio Cymru. Rhoddodd yr ymchwil bersbectif allanol gwerthfawr ar ein cryfderau, ein gwendidau a'n cyfleoedd. O ganlyniad, ffurfiwyd gweithgor i nodi ffyrdd o wella sut rydym yn cyfathrebu â chymunedau.


Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu ein presenoldeb ar safleoedd y cyfryngau cymdeithasol – felly rhwydd hynt i chi ein dilyn ni !

www.twitter.com/planningaid neu www.facebook.com/planningaidwales

# Ein prif gweithgareddau

## Llinell Gymorth

Dros y flwyddyn rydym wedi bod o gymorth i dros 300 o unigolion i ddelio â rhychwant eang o faterion cynllunio. Rydym wedi cynorthwyo pobl i roi sylwadau ar geisiadau cynllunio ac i gymryd rhan ym mhroses Cynlluniau Datblygu Lleol trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor.




## Hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Mae cynghorau Cymuned a Thref yn cynrychioli eu cymunedau lleol ac mae ganddynt rôl bwysig mewn cynllunio cymunedol.

Rydym wedi rhoi at ei gilydd raglen barhaus o hyfforddiant cynllunio rhanbarthol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Ceir mwy o wybodaeth am y digwyddiadau hyn yma: www.planningaidwales.org.uk/community-and-town-councils/training-2/

## E-fwletin ymgysylltiad cymunedol

Mae ein e-fwletin ymgysylltiad cymunedol newydd yn darparu'r diweddaraf ar weithgareddau, ymarfer da, newyddion ac adnoddau ar gyfer cynllunio cymunedol yng Nghymru.

Ceir copïau o'r bwletinau o'r gorffennol yma: www.planningaidwales.org.uk/about-us-2/our-work-2/community-newsletters/

I dderbyn ein e-fwletin, arwyddwch yma: www.planningaidwales.org.uk/about-us-2/our-work-2/community-newsletters/subscribe

## Rhaglen ddigwyddiadau

Rydym wedi paratoi rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau rhwydweithio a rhannu gwybodaeth sydd wedi eu dylunio i wella cysylltiadau, cefnogi menter a hyrwyddo newid diwylliannol, ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol a chynghorau cymuned a thref.

Ceir mwy o wybodaeth am ein rhaglen ddigwyddiadau yma www.planningaidwales.org.uk/events/

# Rhai uchafbwyntiau dros y flwyddyn ddiwethaf

## Gweithdai ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Cawsom gomisiwn gan Lywodraeth Cymru i draddodi gweithdai ar gyfer cynghorwyr, cynrychiolwyr cymunedau a swyddogion cynllunio uwch ymhob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.

Cynlluniwyd y gweithdai hyfforddi i esbonio'r newidiadau ar y gweill a gyflwynwyd yn y Bil Cynllunio (Cymru) ac i wella perthynas cynllunio lleol. Fe'u cynhaliwyd rhwng Mawrth a Thachwedd 2015 gan arddangos yn eglur bod angen cymorth ar gynrychiolwyr cymunedol i ddeall y broses gynllunio a'u rôl ynddi cyn y gallant ymgysylltu'n effeithiol. Fodd bynnag, unwaith bod y broses wedi ei deall a'r rolau'n eglur, mae awydd cryf am ymgysylltiad cadarnhaol, parhaus a llawn parch.



Gan ddefnyddio'r ymyrraeth gynnar yma fel sbringfwrdd, bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn gweithio dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod i barhau cefnogi newid diwylliannol cadarnhaol.

## Hyfforddiant Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynhaliodd Cymorth Cynllunio Cymru weithdai hyfforddiant i staff gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yng Ngogledd a De Cymru ym Mawrth 2016. Canolbwyntiodd y gweithdai ar rôl CNC fel ymgynghorai statudol ac archwiliwyd dulliau o ymgysylltu'n effeithiol â'r broses gynllunio.

## Cefnogi Adolygu CDLl: Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn cychwyn adolygiad cyntaf ei CDLl ac mae wedi canolbwyntio'r rhaglen hyfforddi ei aelodau ar adeiladu dealltwriaeth o broses, rolau ac opsiynau ymgysylltiad cymunedol. Cyflwynodd Cymorth Cynllunio Cymru weithdy ar gyfer aelodau'r awdurdod ym mis Hydref 2015, a bydd yn cyflwyno rhaglen o weithdai ar gyfer cynrychiolwyr y gymuned yn Ebrill 2016. Bydd y gweithdai cymuned yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth cymunedol o broses Adolygu'r CDLl, yn enwedig rôl gwerthuso a dethol y safle.

## Cynhadledd Arolygiaeth Cynllunio Cymru

Cyflwynodd Cymorth Cynllunio Cymru gyflwyniad yng nghynhadledd gyntaf Arolygiaeth Cynllunio Cymru ym Medi 2015. Rhoddodd ein cyflwyniad bersbectif cymunedol ar y drefn newydd o benderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

# Gwirfoddolwyr

Fel elusen fach ei maint rydym yn dibynnu ar ein rhwydwaith o oddeutu 40 o wirfoddolwyr.  Mae'r gwirfoddolwyr yn cynorthwyo â rhychwant eang o weithgareddau, yn cynnwys darparu cyngor i aelodau'r cyhoedd, traddodi hyfforddiant a datblygu canllawiau hygyrch.  Ceir mwy o wybodaeth am wirfoddoli yma: www.planningaidwales.org.uk/volunteer/

Yn Rhagfyr 2015 gwnaethom drefnu ein fforwm cyntaf i wirfoddolwyr, sy'n rhan o fenter ehangach i newid ein hymgysylltiad â gwirfoddolwyr gam wrth gam.

# Bwrdd rheoli

Rydym wedi cymryd camau i ehangu ein sgiliau ar y Bwrdd Rheoli ac wedi croesawu pedwar Cyfarwyddwr newydd yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn.

Bwrdd Rheoli: www.planningaidwales.org.uk/volunteer/

# Gwybodaeth ariannol

Cawn ein cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru.  Hefyd cawn gyllid o weithgareddau masnach megis y prosiectau hyfforddi amrywiol a ddisgrifir uchod.

Bob blwyddyn mae ein Bwrdd Rheoli yn adolygu'r sefyllfa ariannol ac yn gosod cyllid flynyddol yn erbyn ei Strategaeth Ariannol Tymor Ganolig.  Trwy'r broses hon bwriad y Bwrdd yn gyffredinol yw mantoli'r cyfrifon neu, ble bo hynny'n angenrheidiol, i geisio cael ychydig o arian dros ben i adeiladu cronfeydd yr elusen i fuddsoddi yn y dyfodol ac i leihau'r risg ariannol.  Gosodir polisïau rheolaeth risg a chronfeydd yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr sy'n cydfynd â'r Cyfrifon Terfynol 2015/16:
www.planningaidwales.org.uk/about-us-2/key-documents-and-policies/annual-accounts/

# Gwybodaeth er mwyn cysylltu


E-bost: info@planningaidwales.org.uk

Ffôn: 029 2062 5009

Cyfeiriad: 174 Whitchurch Road, Heath, Cardiff, CF14 3NB